Date · Dyddiad 27 Gorffennaf 2018
Your ref · Eich cyfeirnod
My ref · Fy nghyfeirnod KEH/HJ/MW
Telephone · Ffôn 01437 775861
Email · Ebost Kate.evanhughes@pembrokeshire.gov.uk

www.pembrokeshire.gov.uk
www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons). C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

KATE EVAN-HUGHES
Director for Children & Schools
Cyfarwyddwr Dros Blant Ac Ysgolion

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551
DX 98295 HAVERFORDWEST

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

At yr holl ymgyngoreion statudol

Annwyl Syr/Madam

Darpariaeth Addysg Gynradd yn Hwlffordd yn y Dyfodol

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Cyngor Sir Penfro, yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2018, wedi ystyried y cynnig cyhoeddedig canlynol:

1. Cau Ysgol Feithrin a Babanod Mount Airey ac Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Hwlffordd ar 31 Rhagfyr 2018;
2. Sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd i blant 3-11 oed ar gyfer Hwlffordd ar 1 Ionawr 2019 gan ddefnyddio dau safle presennol yr ysgolion.

Penderfyniad y Cyngor oedd cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

At hynny, ac er mwyn gwneud yn iawn am golli ysgol ffydd, bydd dalgylch Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru San Marc yn Merlin's Bridge yn cael ei ymestyn. Bydd hyn yn sicrhau bod rhieni, a fyddai fel arall wedi ffafrio Ysgol WR Hwlffordd oherwydd bod yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol dynodedig, yn gallu gwneud cais am leoedd yn Ysgol WG San Marc.

Cyn dod i'w benderfyniad, ystyriodd y Cyngor Sir y sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, ac ymateb y cynigiwr iddynt. At hynny, roedd y Cyngor yn fodlon y bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau allweddol a restrwyd yn yr achos dros newid, h.y.:

- Gwella safonau;
- Creu ysgol gynradd gymunedol 3-11 oed yn Hwlffordd. Mae gan y Cyngor bolisi o greu ysgolion i blant 3-11 oed, yn hytrach na chreu ysgolion babanod ac iau ar wahân;
- Mae gan Ysgol Gynradd Gymunedol Mount Airey ac Ysgol WR Hwlffordd drefniadau cydweithio helaeth o ganlyniad i'r trefniadau ar gyfer swydd pennaeth gweithredol rhwng y ddwy ysgol. O ganlyniad, mae staff y ddwy ysgol yn cydweithio i ddatblygu eu cwricwlwm ac i rannu arfer da.
- Er bod lleoedd dros ben yn y ddwy ysgol, nid oes digon o leoedd mewn ysgolion eraill yn Hwlffordd; byddai ysgol gynradd 3-11 oed ychwanegol yn helpu i gyfartalu'r niferoedd ar draws Hwlffordd.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Mae'n dda gallu nodi na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

Bydd aelodau corff llywodraethol dros dro ar gyfer yr ysgol newydd yn cael eu penodi maes o law fel y gellir gwneud y trefniadau gweithredu priodol.

Yr eiddoch yn gywir

Kate Evan-Hughes
Cyfarwyddwr dros Blant ac Ysgolion